



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil mewn Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo ac Iechyd y Cyhoedd



Hydref 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/

This document is available in English

Cynnwys

Cynnwys.....	2
Crynodeb Gweithredol	3
1. Cefndir	4
2. Yr hyn a wnaethom	6
3. Yr hyn a ganfuom	8
4. Crynodeb	12
Gweithio gyda ni	13
Cyfeiriadau	14
Atodiadau A:.....	16
Atodiadau B: Rhestr Termau.....	19
Dyfynnu'r cyhoeddiad hwn	19

Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn broblem iechyd y cyhoedd sylweddol yng Nghymru a gall effeithio ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r gymdeithas ehangach. Gall niwed effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol, llesiant ariannol, perthnasoedd, cyflogaeth, addysg a thai. Er bod ymwybyddiaeth o'r niwed hwn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae bylchau pwysig yn y dystiolaeth o hyd ynghylch nodi, atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Yr hyn a wnaethom

Er mwyn cefnogi ymchwil, polisi ac ymarfer yn y dyfodol, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru weithdy blaenoriaethu ymchwil ar-lein dan arweiniad rhanddeiliaid. Roedd wedi'i lywio gan dystiolaeth Cymru a'r DU, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid arbenigol ac egwyddorion cydnabyddedig ar gyfer pennu blaenoriaethau ymchwil iechyd.

Yr hyn a ganfuom

Drwy'r broses hon, nodwyd pum maes o ddiddordeb ymchwil ar gyfer ymchwil i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru, gan adlewyrchu blaenoriaethau a rennir rhanddeiliaid a meysydd allweddol ar gyfer ymchwil bellach:

1. Amgylcheddau digidol a masnachol
2. Atal a rheoleiddio ar lefel y boblogaeth
3. Anghydraddoldebau iechyd a Phoblogaethau sy'n Agored i Niwed
4. Ymyrraeth gynnar ar draws cwrs bywyd
5. Ymateb systemau, triniaeth ac adferiad

Gweithio Gyda Ni

Mae'r pum maes o ddiddordeb ymchwil yn darparu fframwaith ar gyfer nodi bylchau tystiolaeth hollbwysig a llywio penderfyniadau ariannu a buddsoddi ymchwil yn y dyfodol. Maent hefyd yn cefnogi cydweithio a gweithio mewn partneriaeth tuag at gynhyrchu tystiolaeth a all lywio polisi ac arfer sydd â'r nod o atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ledled Cymru.

Dylid darllen y meysydd diddordeb hyn ochr yn ochr â Meysydd ehangach o Ddiddordeb Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2026. Mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn darparu enghraifft ffocws o fater iechyd y cyhoedd trawsbynciol sy'n cyd-fynd â buddiannau ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mhenderfynyddion masnachol iechyd, llesiant meddyliol, ymddygiadau iach, anghydraddoldebau iechyd, atal ac ymyrraeth gynnar, ac ymatebion cynaliadwy system gyfan.

1. Cefndir

Mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn digwydd ar draws sbectrwm a gall effeithio ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a chymdeithas yn ehangach.^{1,2} Gall niwed gynnwys caledi ariannol, dyled, iechyd meddwl a chorfforol gwael, chwalfa perthynas, ansicrwydd tai, cynhyrchiant is yn y gweithle, ymwneud â chyfraith droseddol ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â hunanladdiad.¹⁻⁴ Mae'n bwysig nodi bod niwed yn aml yn ymestyn y tu hwnt i weithgarwch gamblo'r unigolyn a gall effeithio ar bartneriaid, plant, aelodau'r teulu, a phobl eraill yr effeithir arnynt gan weithgarwch gamblo person arall.^{1,5,6}

Mae dull iechyd y cyhoedd yn cydnabod bod niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn cael ei lywio gan ryngweithio cymhleth o ffactorau masnachol, cymdeithasol, amgylcheddol ac unigol.^{1,2,8} Gall cynhyrchion gamblo, marchnata a hysbysebu, amgylcheddau ar-lein a digidol, hygyrchedd, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a gwendidau unigol ddylanwadu ar ymddygiadau gamblo a'r risgiau cysylltiedig, gan gynnwys eraill yr effeithir arnynt.^{1,5,8} O ganlyniad i hyn, mae lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn gofyn am gamau cydlynol ar draws sawl sector. Mae hyn yn cynnwys iechyd y cyhoedd, gofal iechyd, addysg, gweithleoedd, llywodraeth leol, rheoleiddio a sefydliadau cymunedol.^{2,5,6}

Yng Nghymru, mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Tynnodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo sylw at bwysigrwydd mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd⁸ tra bod Asesiad Anghenion Iechyd Hapchwarae ar gyfer Cymru wedi nodi cyfleoedd i gryfhau atal, gwella llwybrau i gefnogi, a datblygu ymateb mwy cydlynol ar draws gwasanaethau.²

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r asiantaeth iechyd y cyhoedd genedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023-2035 yn nodi gweledigaeth ar gyfer poblogaeth iachach, sy'n byw'n hirach yng Nghymru lle mae gan bawb fynediad teg at yr amodau sydd eu hangen ar gyfer iechyd a llesiant da.¹⁰ Yn rhan o'r rôl hon, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth i gefnogi gwelliannau i iechyd y boblogaeth, llywio polisi ac ymarfer, ac ymdrin â heriau iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru i gydlyn atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ledled Cymru ac felly mae ganddo rôl bwysig wrth gefnogi datblygiad sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio polisi, arfer a buddsoddiad yn y dyfodol.¹¹

Mae'r adroddiad hwn yn ategu meysydd ehangach o Ddiddordeb Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ddarparu fframwaith ffocws ar gyfer ymchwil i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, sef mater iechyd y cyhoedd trawsbynciol a nodwyd o fewn agenda ymchwil a gwerthuso ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Er mwyn cefnogi'r agenda hon, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi defnyddio sawl ffynhonnell dystiolaeth, gan gynnwys Asesiad Anghenion Iechyd Hapchwarae ar gyfer Cymru,² dadansoddiad o ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru,¹² y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion^{13,14} a chanfyddiadau o'r Arolwg Gamblo ar gyfer Prydain Fawr.¹⁵ Mae'r ffynonellau hyn yn rhoi cipolwg ar gyfranogiad ym maes gamblo, niwed sy'n

gysylltiedig â gamblo, poblogaethau agored i niwed a phenderfynyddion ehangach sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gamblo yng Nghymru.^{1,12,14}

Mae dadansoddiad o ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru¹² yn dangos cyfleoedd i archwilio niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ochr yn ochr ag ystod o ddangosyddion iechyd, llesiant ac economaidd-gymdeithasol. Yn 2022/23, atebodd 4,748 o ymatebwyr gwestiynau yn ymwneud â chyfranogiad ym maes gamblo. Ymhlith yr ymatebwyr â data Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus (PGSI) defnyddiadwy, dosbarthwyd 1% fel gamblwyr risg uchel neu problemus, 2% fel gamblwyr risg gymedrol a 6% fel gamblwyr risg isel. Mae canfyddiadau o ddau adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion hefyd yn tynnu sylw at gamblo ymhlith pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig bechgyn. Yn 2023, nododd 14% o fechgyn ac 8% o ferched eu bod wedi gwario eu harian eu hunain ar gamblo yn ystod y saith diwrnod blaenorol.¹⁴ Canfu ymchwil gynharach gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion fod oddeutu dwy ran o bump (41%) o blant 11-16 oed wedi gamblo yn ystod y 12 mis blaenorol.¹³

Er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, mae bylchau pwysig yn y dystiolaeth yn parhau. Nododd asesiad tystiolaeth cyflym a gynhaliwyd gan y Sefydliad Polisi yng Ngholeg y Brenin Llundain fylchau sylweddol yn y ddealltwriaeth o effeithiau ariannol, cymdeithasol ac iechyd gamblo, profiadau poblogaethau agored i niwed ac effeithiolrwydd ymyriadau a gynlluniwyd i atal neu leihau niwed. Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at dystiolaeth gyfyngedig ynghylch costau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo i unigolion, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.¹⁶ Yn yr un modd, nododd Mapiau Ffordd Tystiolaeth y Comisiwn Gamblo feysydd y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach yn ymwneud â phrofiadau gamblo cynnar, niwed a breguster sy'n gysylltiedig â gamblo, nodweddion a risg cynnyrch, amgylcheddau gamblo, ac effeithiolrwydd ymyriadau.¹⁷ Tynnodd y Comisiwn sylw hefyd at bwysigrwydd gwerthuso ymyriadau, gan gynnwys llais y rhai sydd â phrofiad bywyd o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a thystiolaeth a all lywio penderfyniadau polisi a rheoleiddio.

Mae Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol y DU ar gyfer Caethiwed Ymddygiadol (NUK-BA) hefyd wedi nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwell dealltwriaeth o niwed a breguster sy'n gysylltiedig â gamblo, gwell gwyliadwriaeth a mesur, gwerthuso ymyriadau a datblygu dulliau triniaeth ac adferiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth.¹⁸

Gan gydnabod yr angen i sicrhau bod buddsoddiad ymchwil yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r bylchau tystiolaeth pwysicaf yng Nghymru, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Weithdy Blaenoriaethu Ymchwil i Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo. Daeth y gweithdy â rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, awdurdodau lleol, y byd academaidd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghyd i nodi a blaenoriaethu anghenion ymchwil yn y dyfodol. Bwriad y meysydd o ddiddordeb ymchwil sy'n deillio o hyn yw cefnogi ymchwilwyr, llunwyr polisi, ymarferwyr a chyllidwyr i ganolbwyntio ymdrechion ar feysydd lle gall tystiolaeth ychwanegol gyfrannu at atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru.

2. Yr hyn a wnaethom

Adolygu'r dystiolaeth

Datblygwyd y meysydd o ddiddordeb ymchwil trwy gyfuniad o dystiolaeth o Gymru a'r DU, ochr yn ochr ag arbenigedd rhanddeiliaid a phrofiad proffesiynol. Cynhaliwyd ymarfer mapio dystiolaeth gan ddefnyddio ffynonellau allweddol gan gynnwys:

- Comisiwn Iechyd y Cyhoedd The Lancet ar Gamblo ¹
- Asesiad Anghenion Iechyd Hapchwarae ar gyfer Cymru.²
- Understanding gambling related harms: a proposed definition, conceptual framework and taxonomy of harms.³
- Datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.⁸
- Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023-2035.¹⁰
- Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2022 i Fawrth 2023.¹²
- Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019, 2023. ^{13,14}
- Arolwg Gamblo ar gyfer Prydain Fawr. ¹⁵
- Sefydliad Polisi yng Ngholeg y Brenin Llundain, Rapid Evidence Assessment on Gambling Related Harm. ¹⁶
- Mapiau Ffyrdd Tystiolaeth y Comisiwn Gamblo. ¹⁷
- Blaenoriaethau ymchwil Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol y DU ar gyfer Caethiwed Ymddygiadol (NUK-BA). ¹⁸

Nododd yr ymarfer mapio dystiolaeth feysydd allweddol ar gyfer ymchwil bellach a chynhyrchodd tua 50 o gwestiynau ymchwil yn ymwneud â gwaith ataliol, trin a gwella ym maes niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru. Fe wnaeth grŵp amlddisgyblaethol o wyth aelod o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd ag arbenigedd mewn niwed sy'n gysylltiedig â gamblo adolygu'r cwestiynau a grwpio pynciau cysylltiedig yn themâu rhagarweiniol. Arweiniodd y broses hon at wyth maes thematig cychwynnol:

- Atal
- Ymyrraeth gynnar
- Triniaeth a chefnogaeth
- Plant a phobl ifanc
- Anghydraddoldebau iechyd
- Data a gwyliadwriaeth
- Profiad bywyd
- Gamblo digidol ac ar-lein

Gweithdy rhanddeiliad

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Weithdy Blaenoriaethu Ymchwil i Niwed sy'n gysylltiedig â Gamblo ar-lein ar 15 Mehefin 2026. Mynychodd pedwar ar hugain o gyfranogwyr o bob cwr o Gymru, gan gynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, ac awdurdodau lleol a'r byd academiaidd. Roedd arbenigedd yno mewn atal niwed sy'n gysylltiedig â chaethiwed a gamblo. Gan nad oedd cynrychiolaeth uniongyrchol o brofiadau bywyd a'r cyhoedd wedi'i chynnwys ar y cam hwn, dylid ystyried y meysydd o ddiddordeb ymchwil fel fframwaith sy'n datblygu a fydd yn cael ei fireinio trwy ymgysylltu â phrofiadau bywyd yn y dyfodol a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

Defnyddiodd y gweithdy ddull blaenoriaethu ymchwil dan arweiniad rhanddeiliaid, yn seiliedig ar gonsensws, wedi'i lywio gan yr egwyddorion ar gyfer gosod blaenoriaethau ymchwil iechyd a ddisgrifiwyd gan Viergever et al.¹⁹ Pwrpas y gweithdy oedd nodi ac adeiladu consensws ynghylch y bylchau tystiolaeth a'r anghenion ymchwil pwysicaf i Gymru. Gan ddefnyddio arbenigedd o bolisi, ymarfer, ymchwil a'r byd academiaidd, ystyriodd y cyfranogwyr fylchau cyfredol mewn gwybodaeth, heriau sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd ar gyfer ymchwil a allai gryfhau gwaith ataliol, ymyrraeth gynnar, triniaeth ac adferiad. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd mabwysiadu dulliau amlddisgyblaethol sy'n tynnu ar safbwyntiau iechyd y cyhoedd, gofal iechyd, gwyddorau cymdeithasol, economeg, gwyddor data a phrofiad bywyd er mwyn deall yn well y ffactorau cymhleth a chydgyssylltiedig sy'n cyfrannu at niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ac sy'n llywio ymatebion effeithiol.

Ar ddechrau'r gweithdy, roedd yna gyfres o gyflwyniadau yn ymdrin â datblygiadau polisi, dulliau iechyd y cyhoedd, gwasanaethau triniaeth a'r sylfaen dystiolaeth gyfredol. Yna cymerodd y cyfranogwyr ran mewn trafodaethau grŵp wedi'u hwyluso i archwilio niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng nghyd-destun Cymru, nodi'r poblogaethau yr effeithir arnynt fwyaf gan niwed ac ystyried ble roedd angen tystiolaeth ychwanegol.

Gan adeiladu ar y themâu rhagarweiniol a nodwyd drwy'r ymarfer mapio tystiolaeth, adolygodd a mireiniodd y cyfranogwyr y meysydd ymchwil arfaethedig, nodon nhw feysydd ychwanegol yr oedd angen ymchwilio iddynt ymhellach a thrafodon nhw flaenoriaethau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol yng Nghymru. Cipiwyd trafodaethau trwy nodiadau gweithdy, adborth o'r ystafelloedd trafod a chyfraniadau i fwrdd Miro.

Yn dilyn y trafodaethau, cwblhaodd y cyfranogwyr ymarfer blaenoriaethu i nodi'r meysydd yr oeddent yn eu hystyried bwysicaf ar gyfer buddsoddiad ymchwil yn y dyfodol. Aseswyd meysydd ymchwil yn ôl eu brys, eu heffaith bosibl ar iechyd y cyhoedd, eu hyfywedd, eu cyfraniad at leihau anghydraddoldebau, eu perthnasedd i bolisi ac ymarfer, a'u cyfleoedd i gydweithio.

Yn dilyn y gweithdy, adolygodd tîm prosiect Iechyd Cyhoeddus Cymru themâu mapio tystiolaeth, allbynnau'r gweithdy, adborth y trafodaethau grŵp a chyfraniadau bwrdd Miro. Cafodd meysydd gorgyffwrdd eu cyfuno'n bum maes ymchwil cyffredinol, gan adlewyrchu blaenoriaethau a rennir rhanddeiliaid a bylchau tystiolaeth allweddol ar gyfer Cymru.

3. Yr hyn a ganfuom

Meysydd o ddiddordeb ymchwil

Cyflwynir y pum maes o ddiddordeb ymchwil yn Nhabl 1. Mae disgrifiad cryno a set o gwestiynau ymchwil dangosol ym mhob maes. Mae'r rhain yn adlewyrchu anghenion ymchwil allweddol a nodwyd drwy fapio tystiolaeth a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u bwriad yw llywio gweithgarwch ymchwil yn y dyfodol yng Nghymru. Nid yw'r cwestiynau'n gynhwysfawr a dylid eu hystyried fel man cychwyn ar gyfer ymholiad pellach. Anogir ymchwilwyr, ymarferwyr, llunwyr polisi a chyllidwyr i drosi'r pynciau eang hyn yn astudiaethau ffocws, atebol sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru, sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a, lle bo'n briodol, yn ymgorffori safbwyntiau pobl sydd â phrofiad bywyd o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae dull ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru o ymchwilio a gwerthuso yn sail i'r meysydd ymchwil hyn. Mae'n ceisio cynhyrchu tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar atal, sy'n canolbwyntio ar degwch, sy'n berthnasol i bolisi, sydd wedi'i chyd-gynhyrchu lle bo'n briodol, ac sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru.

Bwriedir i'r fframwaith gael ei ddefnyddio fel dogfen waith a bydd yn parhau i ddatblygu trwy waith ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, mewnbwn o brofiad bywyd, tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, a newidiadau mewn polisi ac ymarfer. Bydd datblygu'r meysydd hyn yn gofyn am ddulliau amlddisgyblaethol sy'n tynnu ar arbenigedd o iechyd y cyhoedd, gofal iechyd, gwyddorau cymdeithasol, gwyddor ymddygiad, gwyddor weithredu ac economeg iechyd.

Tabl 1. Pum Maes o Ddiddordeb Ymchwil

Maes blaenoriaeth	Cwestiynau'r ymchwil	Ffocws
Amgylcheddau Digidol a Masnachol	Beth sy'n achosi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?	Deall sut mae systemau, cynhyrchion ac arferion masnachol a digidol yn creu neu'n gwaethygu niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.
Gwaith Ataliol, Rheoleiddio a Gwylidwriaeth ar Lefel y Boblogaeth	Beth sy'n atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?	Nodi polisiâu, rheoliadau, ymyriadau ar lefel y boblogaeth a dulliau gwylidwriaeth effeithiol er mwyn lleihau niwed.
Anghydraddoldebau Iechyd a Phoblogaethau sy'n Agored i Niwed	Pwy sy'n cael ei effeithio fwyaf gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?	Deall cysylltiad anghyfartal, breguster ac effeithiau ar eraill yr effeithir arnynt, a nodi dulliau o leihau anghydraddoldebau.
Ymyrraeth Gynnar ar draws Cwrs Bywyd	Pryd a sut mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn datblygu?	Deall datblygiad agweddau, ymddygiadau a niwed sy'n gysylltiedig â gamblo pan mae rhywun yn blentyn, yn berson ifanc ac yn oedolyn, a chyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar.
Ymateb Systemau, Triniaeth ac Adferiad	Sut ddylai systemau a gwasanaethau ymateb i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?	Cryfhau adnabod, triniaeth, gwella, llwybrau cymorth ac ymatebion system gyfan cydlynol.

3.1 Amgylcheddau Digidol a Masnachol

Nodwyd bod amgylcheddau digidol a masnachol yn flaenoriaeth oherwydd dylanwad cynyddol llwyfannau ar-lein, dylunio cynhyrchion gamblo, hysbysebu, nawdd a marchnata ar ymddygiad gamblo.

Dylai ymchwil yn y dyfodol archwilio sut mae cynhyrchion gamblo, technolegau digidol ac arferion masnachol yn dylanwadu ar ymddygiadau gamblo ac yn cyfrannu at niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Mae meysydd allweddol i'w hymchwilio yn cynnwys gamblo ar-lein, marchnata personol, nawdd, dylunio cynhyrchion a'r berthynas rhwng gamblo ac ymddygiadau risg eraill.

Mae cwestiynau ymchwil dangosol yn cynnwys:

- Pa nodweddion cynnyrch a nodweddion dylunio sy'n gysylltiedig â risg uwch neu ddifrifoldeb cynyddol o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ac ar gyfer pwy?
- Sut mae amgylcheddau gamblo ar-lein, gan gynnwys dylunio platfformau, personoli a nodweddion ymgysylltu digidol, yn dylanwadu ar gyfranogiad mewn gamblo, dwyster gambo a risg o niwed?
- Pa effaith y mae marchnata, hysbysebu a nawdd gamblo yn ei chael ar ymddygiadau gamblo a niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?

3.2 Atal, Rheoleiddio a Gwylidwriaeth ar Lefel y Boblogaeth

Nodwyd atal a rheoleiddio ar lefel y boblogaeth fel blaenoriaethau oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar atal niwed cyn iddo ddigwydd. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i ddeall sut mae polisiau, rheoleiddio ac ymyriadau amgylcheddol yn dylanwadu ar ymddygiad gamblo ac yn lleihau niwed ar draws y boblogaeth.

Mae meysydd allweddol i'w hymchwilio yn cynnwys effeithiolrwydd polisiau sy'n mynd i'r afael ag amgylcheddau gamblo, hysbysebu, nawdd a hygyrchedd, yn ogystal â chyfleoedd i gryfhau monitro a gwylidwriaeth ar lefel y boblogaeth a gwella dealltwriaeth o gostau a manteision dulliau sy'n canolbwyntio ar atal.

Mae cwestiynau ymchwil dangosol yn cynnwys:

- Pa ymyriadau ar lefel y boblogaeth sydd fwyaf effeithiol wrth leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?
- Beth yw'r adenillion o fuddsoddi ar gyfer ymyriadau atal a rheoleiddio ar lefel y boblogaeth?
- Pa effaith y mae newidiadau rheoleiddiol yn ei chael ar gyfranogiad a niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?
- Pa ddata a dangosyddion sydd eu hangen i fonitro cyfranogiad mewn gamblo a niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru?

3.3 Anghydraddoldebau Iechyd a Phoblogaethau sy'n Agored i Niwed

Ni phrofir niweidiau sy'n gysylltiedig â gamblo yn gyfartal a gallant glystyru ochr yn ochr â mathau ehangach o anfantais. Nododd rhanddeiliaid yr angen i ddeall yn well sut mae ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn dylanwadu ar freguster ac yn cyfrannu at brofiadau anghyfartal o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae angen deall yn well brofiadau grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gan gynnwys eraill yr effeithir arnynt, a nodi dulliau effeithiol o leihau anghydraddoldebau.

Mae cwestiynau ymchwil dangosol yn cynnwys:

- Pa boblogaethau sy'n profi'r baich mwyaf o ran niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru?
- Sut mae ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn dylanwadu ar freguster i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?
- Pa ymyriadau sydd fwyaf effeithiol wrth leihau anghydraddoldebau mewn niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?
- Sut gellir cefnogi teuluoedd ac eraill yr effeithir arnynt yn well i atal neu liniaru niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?

3.4 Ymyrraeth Gynnar ar draws Cwrs Bywyd

Nodwyd ymyrraeth gynnar fel blaenoriaeth oherwydd gall agweddau ac ymddygiadau gamblo ddatblygu pan mae rhywun yn blentyn, yn berson ifanc ac yn oedolyn. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd deall cysylltiad cynnar â gamblo a nodi cyfleoedd i atal niwed cyn iddo gael ei sefydlu.

Mae meysydd allweddol i'w hymchwilio yn cynnwys plant a phobl ifanc, teuluoedd ac eraill yr effeithir arnynt, a rôl ysgolion, lleoliadau chwaraeon ac amgylcheddau cymunedol wrth lywio agweddau, ymddygiadau a risgiau sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae cwestiynau ymchwil dangosol yn cynnwys:

- Sut mae dod i gysylltiad â hysbysebu, marchnata a nawdd sy'n gysylltiedig â gamblo yn dylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau gamblo ymhlith plant a phobl ifanc?
- Pa ffactorau ar draws cwrs bywyd sy'n cyfrannu at ddatblygiad ymddygiadau gamblo a niwed sy'n gysylltiedig â gamblo?
- Pa ddulliau atal sydd fwyaf effeithiol mewn ysgolion, lleoliadau chwaraeon ac amgylcheddau cymunedol?

3.5 Ymateb Systemau, Triniaeth ac Adferiad

Nododd rhanddeiliaid yr angen am ymateb system gyfan cydlynol sy'n cynnwys gofal iechyd, iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a gwasanaethau cyfiawnder.

Mae angen rhagor o dystiolaeth i ddeall sut gall gwasanaethau nodi, ymateb i ac atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn well. Mae meysydd i'w hymchwilio yn cynnwys modelau triniaeth ac adferiad, llwybrau i gefnogaeth, ac ymatebion i niweidiau sy'n cyd-ddigwydd fel camddefnyddio sylweddau, afiechyd meddwl a throseddau sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae cwestiynau ymchwil dangosol yn cynnwys:

- Sut gellir nodi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn gynharach ac yn fwy cyson ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a chyfiawnder troseddol a'u cysylltu â chymorth a gofal priodol?
- Pa fodolau triniaeth, adferiad a chefnogaeth gan gymheiriaid sydd fwyaf effeithiol ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a chefnogi adferiad hirdymor?
- Sut gall gwasanaethau ymateb yn well i bobl sy'n profi niweidiau sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys afiechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, caledi ariannol, digartrefedd a chyswllt â'r system cyfiawnder troseddol?
- Pa rwystrau a hwyluswyr sy'n dylanwadu ar fynediad at driniaeth a chymorth o ran adferiad ar gyfer grwpiau poblogaeth gwahanol yng Nghymru?

Themâu Trawsbynciol

Mae sawl thema drawsbynciol yn berthnasol ar draws pob un o'r pum maes o ddiddordeb ymchwil. Dylai ymchwil yn y dyfodol gynnwys profiad bywyd a chyd-gynhyrchu lle bo'n briodol, adlewyrchu cyd-destun Cymru, ac ystyried anghenion cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â hygyrchedd ymchwil, mentrau atal a gwasanaethau cymorth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dylid ystyried hefyd grwpiau sydd mewn mwy o berygl o niwed, gan gynnwys pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, afiechyd meddwl, problemau camddefnyddio sylweddau, niwrowahaniaeth, a'r rhai yr effeithir arnynt gan weithgarwch gamblo person arall.

4. Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn nodi pum maes o ddiddordeb ymchwil ar gyfer ymchwil i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru, a ddatblygwyd trwy gyfuniad o fapio tystiolaeth a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae'r adroddiad yn cyd-fynd â Meysydd ehangach o Ddiddordeb Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2026. Er bod y ddogfen ehangach yn nodi gamblo fel maes o ddiddordeb yn agenda ymddygiadau iach ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r adroddiad hwn yn darparu fframwaith mwy manwl ar gyfer ymchwil i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae'r meysydd o ddiddordeb ymchwil yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o sut mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn datblygu, pwy sy'n cael ei effeithio fwyaf, sut mae niwed yn datblygu ar draws cwrs bywyd, a sut gellir ei atal, ei nodi a mynd i'r afael ag ef. Maent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau anghydraddoldebau, gwreiddio profiad bywyd, a chynhyrchu tystiolaeth sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru.

Er eu bod yn cael eu cyflwyno ar wahân, mae'r meysydd hyn yn darparu fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer ymchwil yn y dyfodol ar niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru. Bwriad hyn yw arwain gweithgarwch ymchwil yn y dyfodol, cefnogi polisi ac

ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chryfhau cydweithio ar draws sectorau a chymunedau.

Y cam nesaf yw trosi'r meysydd o ddiddordeb ymchwil hyn a'r cwestiynau ymchwil dangosol yn rhaglenni ymchwil cydweithredol, wedi'u hariannu, sy'n cynhyrchu tystiolaeth ac yn cefnogi gweithredu yng Nghymru. Bydd gweithio mewn partneriaeth barhaus yn hanfodol i gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen i atal a lleihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a gwella iechyd a llesiant yng Nghymru.

Gweithio Gyda Ni

Bwriad y meysydd o ddiddordeb ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw llywio gweithgarwch ymchwil yn y dyfodol yng Nghymru a byddant yn parhau i ddatblygu trwy gydweithio ac ymgysylltu parhaus. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu cyfleoedd gydag ymchwilwyr, cyllidwyr, llunwyr polisi, sefydliadau'r trydydd sector, ymarferwyr a phobl â phrofiad bywyd i ddatblygu a mireinio'r meysydd ymchwil hyn ymhellach.

Gwahoddir y rhai sydd â diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gysylltu â'r tîm gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod.

Swyddog Ymchwil a Datblygu
Iechyd Cyhoeddus Cymru
ICC.Ymchwil@wales.nhs.uk

Cyfeiriadau

1. Wardle H, Degenhardt L, Marionneau V, Reith G, Livingstone C, Sparrow M, et al. Comisiwn Iechyd Cyhoeddus The Lancet ar gamblo. Lancet Public Health. 2024;9(11):e950-e994. Ar gael o: [https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667\(24\)00167-1/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667(24)00167-1/fulltext)
2. Ashman A, Beynon C. Ashman A, Beynon C. Asesiad Anghenion Iechyd Hapchwarae ar gyfer Cymru Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2022. Ar gael o: <https://icccgsib.co.uk/wp-content/uploads/2023/01/WELSH-Gambling-Health-Needs-Assessment-for-Wales-FINAL-v2.pdf>
3. Langham E, Thorne H, Browne M, Donaldson P, Rose J, Rockloff M. Understanding gambling related harm: a proposed definition, conceptual framework, and taxonomy of harms. BMC Public Health. 2016;16:80. Ar gael o: <https://bmcpublichealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12889-016-2747-0>
4. Wardle H, McManus S. Suicidality and gambling among young adults in Great Britain: results from a cross-sectional online survey. Lancet Public Health. 2021;6(1):e39-e49. Ar gael o: [https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667\(20\)30232-2/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lanpub/article/PIIS2468-2667(20)30232-2/fulltext)
5. Goodwin BC, Browne M, Rockloff M, Rose J. A typical problem gambler affects six others. Int Gambl Stud. 2017;17(2):276-289. Ar gael o: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/14459795.2017.1331252>
6. Raybould JN, Larkin M, Tunney RJ. Is there a health inequality in gambling related harms? A systematic review. BMC Public Health. 2021;21:305. Ar gael o: <https://bmcpublichealth.biomedcentral.com/articles/10.1186/s12889-021-10206-9>
7. Dowling N, Suomi A, Jackson A, Lavis T, Patford J, Cockman S, et al. Problem gambling and intimate partner violence: a systematic review and meta-analysis. Trauma Violence Abuse. 2016;17(1):43-61. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/1524838014561269>
8. Gwasanaeth Ymchwil Senedd Cymru. Mabwysiadu agwedd iechyd y cyhoedd at gamblo cymhellol yng Nghymru. Caerdydd: Senedd Cymru; 2022. Ar gael o: <https://ymchwil.senedd.cymru/>
9. Llywodraeth Cymru. Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo: Argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; 2022. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/>
10. Iechyd Cyhoeddus Cymru. Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023-2035. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2023. Ar gael o: <https://icc.gig.cymru/gwybodaeth-erthygl/ein-strategaeth-hirdymor2023-i-2035/>
11. Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Gwasanaethau cymorth a thriniaeth ar gyfer ymdrin â gamblo yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; 2026. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwasanaethau-cymorth-thriniaeth-ar-gyfer-ymdrin-gamblo-yng-nghymru>
12. Llywodraeth Cymru. Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru; 2024. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/gamblo-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fis-mawrth-2023-html>

13. Hewitt G, Anthony R, Moore G, Melendez-Torres GJ, Murphy S. Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: adroddiad cenedlaethol 2017/18 HealSturgis P, Kuha J, Kuipers M, Cassidy R, Cairns P, Evans J, et al. Identifying research priorities on gambling related harms: a rapid evidence assessment for Action Against Gambling Harms.
14. Arolwg o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd; 2019. Ar gael o: <https://www.shrn.org.uk/cy/>
15. Page N, Angel L, Ogada E, Young H, Murphy S. Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg o Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2021/22 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd; 2023. Ar gael o: <https://www.shrn.org.uk/cy/>
16. Y Comisiwn Gamblo. Gambling Survey for Great Britain. Birmingham: Y Comisiwn Gamblo; 2025. Ar gael o: <https://www.gamblingcommission.gov.uk/statistics-and-research/publication/gambling-survey-for-great-britain>
17. Sturgis P, Kuha J, Kuipers M, Cassidy R, Cairns P, Evans J, et al. Identifying research priorities on gambling related harms: a rapid evidence assessment for Action Against Gambling Harms. Llundain: Sefydliad Polisi, Coleg y Brenin Llundain; 2021. Ar gael o: <https://www.kcl.ac.uk/policy-institute>
18. Y Comisiwn Gamblo. Evidence Roadmaps. Birmingham: Y Comisiwn Gamblo; 2025. Ar gael o: <https://www.gamblingcommission.gov.uk/statistics-and-research/topic/hub/evidence-roadmaps>
19. Bowden-Jones H, Hook RW, Grant JE, Ioannidis K, Corazza O, Fineberg NA, Singer BF, Roberts A, Bethlehem RAI, Dymond S, et al. Gambling disorder in the United Kingdom: key research priorities and the urgent need for independent research funding. Lancet Psychiatry. 2022;9(4):321-331. Ar gael o: [https://www.thelancet.com/journals/lanpsy/article/PIIS2215-0366\(22\)00086-0/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lanpsy/article/PIIS2215-0366(22)00086-0/fulltext)
20. Viergever RF, Olifson S, Ghaffar A, Terry RF. A checklist for health research priority setting: nine common themes of good practice. Health Res Policy Syst. 2010;8:36. Ar gael o: <https://health-policy-systems.biomedcentral.com/articles/10.1186/1478-4505-8-36>

Atodiadau

Atodiad A: Pum Maes o Ddiddordeb Ymchwil

Rhif adnabod	Ffocws Blaenoriaethau Ymchwil	Y Rhesymeg	Yn gyson â Llywodraeth Cymru / yr Ardoll Statudol	
1	Amgylcheddau Digidol a Masnachol	Deall sut mae amgylcheddau masnachol a digidol yn cyfrannu at niwed sy'n gysylltiedig â gamblo	Mae ymddygiadau gamblo yn cael eu llywio fwyfwy gan lwyfannau ar-lein, dylunio cynnyrch, hysbysebu, nawdd ac arferion marchnata. Gall yr amgylcheddau masnachol a digidol hyn gynyddu cysylltiad, dylanwadu ar ymddygiad a chynyddu'r risg o niwed, yn enwedig wrth ryngweithio â phobl sy'n agored i niwed yn wybyddol, yn seicolegol ac yn gymdeithasol. Mae angen ymchwil i ddeall y mecanweithiau y mae'r amgylcheddau hyn yn cyfrannu at niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ac effeithiau cymdeithasol ehangach.	Risgiau sy'n dod i'r amlwg ac arloesi. Mynd i'r afael â ffynonellau niwed sy'n datblygu'n gyflym ac sydd heb eu hymchwilio'n fawr sy'n gysylltiedig â gamblo ar-lein, technolegau digidol ac amgylcheddau gamblo sy'n newid.
2	Atal a Rheoleiddio ar Lefel y Boblogaeth	Deall beth sy'n atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ar lefel y boblogaeth	Mae dulliau ar lefel y boblogaeth yn ceisio atal niwed cyn iddo ddigwydd drwy fynd i'r afael ag amgylcheddau gamblo, hygyrchedd, dylunio cynnyrch,	Lleihau niwed ar lefel y boblogaeth. Canolbwyntio ar sbardunau niwed ar lefel system a chefnogi polisïau atal sy'n seiliedig

			hysbysebu a nawdd. Mae angen ymchwil i nodi pa ddulliau atal a rheoleiddio sydd fwyaf effeithiol, teg a chosteffeithiol, a sut gellir monitro cyfranogiad a niwed sy'n gysylltiedig â gamblo dros amser er mwyn llywio polisi ac ymarfer.	ar dystiolaeth yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ddulliau newid ymddygiad unigol.
3	Anghydraddold ebau lechyd a Phoblogaethau sy'n Agored i Niwed	Deall pwy sy'n cael ei effeithio fwyaf gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a pham	Nid yw niwed sy'n gysylltiedig â gamblo wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ac mae'n cael ei lywio gan ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Gall niwed glystyru ochr yn ochr â chaledi ariannol, iechyd meddwl gwael, niwrowahaniaeth, camddefnyddio sylweddau ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan hefyd effeithio ar deulu a ffrindiau, gan gyfrannu at anfantais waeth. Mae angen ymchwil i ddeall patrymau o freguster a nodi dulliau effeithiol o leihau anghydraddoldebau.	Atal ac ymyrraeth gynnar. Cefnogi adnabod poblogaethau yr effeithir arnynt yn anghymesur gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a llywio ymdrechion atal a chefnogi wedi'u targedu.
4	Ymyrraeth Gynnar ar draws Cwrs Bywyd	Deall pryd a sut mae niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn datblygu	Gall agweddau ac ymddygiadau gamblo ddatblygu pan mae rhywun yn blentyn, yn berson ifanc ac yn oedolyn. Gall dod i gysylltiad â gamblo drwy hysbysebu,	Atal, comisiynu a diogelu. Cefnogi gwaith ataliol ymhellach i fyny'r gadwyn drwy leihau dod i gysylltiad, normaleiddio, a

			nawdd, technolegau digidol, amgylcheddau gemau, dylanwadau teuluol a chwaraeon lywio ymddygiadau yn y dyfodol a'r risg o niwed. Mae angen ymchwil i ddeall llwybrau datblygiadol, ffactorau risg cynnar a chyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar.	chymryd rhan mewn gamblo'n gynnar ymhlith plant a phobl ifanc.
5	Ymateb Systemau, Triniaeth ac Adferiad	Deall sut gall gwasanaethau a systemau ymateb yn well i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo	Mae ymatebion effeithiol i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn gofyn am gamau cydlynol ar draws gofal iechyd, iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a gwasanaethau cyfiawnder. Mae angen ymchwil i wella adnabod, llwybrau atgyfeirio, cymorth o ran triniaeth ac adferiad, ac i ddeall sut gall systemau ymateb i faterion sy'n cyd-ddigwydd fel afiechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, dyled a throseddau sy'n gysylltiedig â gamblo.	Ymateb traws-sector cydlynol. Adlewyrchu'r dull ardoll statudol drwy gefnogi gweithgarwch atal, triniaeth, gwella ac ymchwil integredig ar draws sectorau.

Atodiad B: Rhestr Termau

Term	Diffiniad
Eraill yr effeithir arnynt	Unigolion sy'n profi niwed o ganlyniad i weithgarwch gamblo person arall.
Cyd-gynhyrchu	Gweithio mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad bywyd drwy gydol y broses ymchwil.
Niwed sy'n gysylltiedig â gamblo	Effeithiau andwyol gamblo ar iechyd a llesiant.
Anghydraddoldebau iechyd	Gwahaniaethau annheg y mae modd eu hosgoi mewn iechyd a brofir gan grwpiau gwahanol.
Profiad bywyd	Profiad personol uniongyrchol o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, naill ai'n bersonol neu fel rhywun arall yr effeithir arno.
PGSI	Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus.
Atal ar lefel y boblogaeth	Dulliau a gynlluniwyd i leihau risg ac atal niwed ar draws poblogaethau cyfan.
Dull iechyd y cyhoedd	Dull sy'n canolbwyntio ar atal, lleihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y boblogaeth.
Ardoll gamblo statudol	Ardoll orfodol a delir gan weithredwyr gamblo i gefnogi gweithgareddau ymchwil, atal a thrin.
Dull systemau	Dull sy'n cydnabod bod niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau cymdeithasol, masnachol, amgylcheddol ac unigol cydgysylltiedig.
Poblogaethau agored i niwed	Grwpiau a allai fod mewn mwy o berygl o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo oherwydd amgylchiadau cymdeithasol, economaidd neu iechyd.
Dull system gyfan	Camau cydlynol ar draws sectorau a sefydliadau i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth.

Dyfynnu'r cyhoeddiad hwn

Caniateir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r [Drwydded Llywodraeth Agored](#) (OGL) ar yr amod y gwneir hynny'n fanwl gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymr iachach

Working together
for a healthier Wales